

Ystadegau tai a diweddariad ymchwil Llywodraeth Cymru, Medi 2022

Ymchwil tai Llywodraeth Cymru

Mae'r prosiectau ymchwil canlynol ar y gweill:

- **Mae gwerthusiad o ymyriadau digartrefedd yng Nghymru i gefnogi trawsnewid gwasanaethau digartrefedd** ar y gweill. Bydd yr ymchwil hwn yn adeiladu'r sylfaen dystiolaeth ar draws atal ac ymyrraeth ym maes digartrefedd.
- Mae gwaith archwiliol ar y gweill i ddichonoldeb data **Dyraniadau Tai Cymdeithasol**, gan edrych yn benodol ar ddeall ansawdd, argaeledd, a sylw i'r data presennol mewn perthynas â dyraniadau tai cymdeithasol.
- **Mae ymchwil i archwilio'r gweithlu adeiladu aml-feddiannol** ar y gweill ar hyn o bryd. Bydd hyn yn cefnogi adolygiad cynhwysfawr o'r system diogelwch adeiladau presennol, er mwyn llywio diwygiadau i'r ffordd y mae adeiladau preswyl aml-feddiannol yn cael eu harchwilio a'u rheoleiddio.
- **Mae adolygiad llenyddiaeth ar Ddylanwadau ar Ymddygiadau Diogelwch Tân Preswyl** ar y gweill. Mae hyn yn ceisio deall y dystiolaeth sydd ar gael ar ddylanwadau dynol mewn tanau annedd, yn benodol mewn adeiladau aml-feddiannol i gefnogi'r adolygiad o'r system diogelwch adeiladau presennol a diwygiadau cysylltiedig.
- **Mae disgwyl i ymchwil gyda thrigolion adeiladau aml-feddiannol** ddechrau yn fuan. Bydd hyn hefyd yn cefnogi adolygiad cynhwysfawr o'r system ddiogelwch adeiladau presennol, i lywio diwygiadau i'r ffordd y mae adeiladau preswyl aml-feddiannol yn cael eu harchwilio a'u rheoleiddio.

Mae pob adroddiad ymchwil tai i'w weld ar y [wefan Ystadegau ac Ymchwil](#).

Ystadegau tai

Datganiadau ystadegol diweddar

[Digartrefedd: Ebrill 2021 i Fawrth 2022 | LLYW.CYMRU](#) (28 Gorffennaf 2022)

[Gwerthiannau tai landlordiaid cymdeithasol: Ebrill 2021 i Fawrth 2022 | LLYW.CYMRU](#) (7 Gorffennaf 2022)

[Adeiladu tai newydd: Ebrill 2021 i Fawrth 2022 | LLYW.CYMRU](#) (7 Gorffennaf 2022)

Data chwarterol a blynyddol am yr ymgyrch [Cymorth i Brynu - Cymru \(Cynllun Benthyciad Ecwiti a Rennir\) | LLYW.CYMRU](#) yn parhau i gael ei gyhoeddi'n rheolaidd. Roedd y diweddara' o'r rhain ar gyfer y flwyddyn Ebrill 2021 hyd Mawrth 2022, a gyhoeddwyd ym mis Mai 2022.

Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn parhau i gyhoeddi data Mynegai Prisiau Tai yn fisol ar gyfer Cymru a [chyhoeddwyd \(Saesneg yn unig\)](#) y diweddara'f o'r rhain (ar gyfer Mehefin 2022) ar 17 Awst ochr yn ochr â [data ar gyfer gweddill y DU \(Saesneg yn unig\)](#).

Mae Data ar [Dreth Trafodiadau Tir](#) yn parhau i gael ei gyhoeddi'n rheolaidd gan Awdurdod Cyllid Cymru.

Gwybodaeth fisol am ddarpariaeth llety digartrefedd a chysgu ar y stryd

Rydym wedi parhau i gyhoeddi [gwybodaeth reoli misol](#) am gysgu ar y stryd a darparu llety i'r digartref.

Nid yw'r wybodaeth reoli hon wedi cael yr un lefel o sicrwydd ansawdd ag ystadegau swydddogol.

Mae'r holl ddatganiadau ar gael o [wefan Ystadegau ac Ymchwil](#).

Rydym yn croesawu adborth ar gynnwys a chyflwyniad unrhyw un o'r ystadegau a'r wybodaeth reoli hon i ystadegau.tai@llyw.cymru.

Datblygu Dangosydd Cenedlaethol newydd ar fforddiadwyedd tai

Rydym wedi bod yn datblygu'r fethodoleg ar gyfer y dangosydd cenedlaethol newydd ar fforddiadwyedd tai a gytunwyd ym mis Rhagfyr 2021 fel canran yr aelwydydd sy'n gwario 30% neu fwy o'u hincwm ar gostau tai sy'n deillio o ddata o Arolwg Adnoddau Teuluol yr Adran Gwaith a Phensiynau (FRS). Cyhoeddir data am Gymru ar draws cyfnodau gwahanol ochr yn ochr ag adroddiad Llesiant Cymru 2022 a fydd yn cael ei gyhoeddi ar 29 Medi.

Rhaglen Dystiolaeth Amodau Tai

Yn y diweddariad chwarterol diwethaf, darparwyd gwybodaeth am [amcangyfrifon tlodi tanwydd newydd wedi'u modelu ym mis Hydref 2021](#). Byddwn yn cyhoeddi dadansoddiad manylach o'r data yma yn ystod y misoedd nesaf er mwyn rhoi mwy o wybodaeth am bwy

sy'n cael ei effeithio gan dlodi tanwydd. Bydd adroddiad methodoleg fanwl yn cyd-fynd â hyn.

Mae gwaith yn parhau i ddatblygu dangosfwrdd tlodi tanwydd i ddod ag ystod o ddata sy'n berthnasol i dlodi tanwydd at ei gilydd.

Rydym yn parhau i weithio gyda Thîm Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC) i ddarparu cefnogaeth ddadansoddol wrth ddatblygu y Safon ôl-2020. Mae'r [ymgyngoriad ar y Safon arfaethedig](#) nawr ar gau ac mae'r ymatebion yn cael eu dadansoddi.

Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn cynllunio cyhoeddiad cyn bo hir sy'n darparu gwybodaeth am ba ddata sydd ar gael ledled y DU am effeithlonrwydd ynni tai, gan ganolbwyntio ar wybodaeth a ddarperir drwy Dystysgrifau Perfformiad Ynni neu arolygon amodau tai.

Adnodd Dadansoddol Stoc Dai i Gymru (HSAR)

Rydym yn parhau i weithio gydag Adrannau eraill y Llywodraeth, Asiantaethau ac ONS o ran rhannu data perthnasol dan y Ddeddf Economi Ddigidol, megis gwybodaeth Treth Cyngor.

Rydym yn parhau i edrych ar gyrchu ffynonellau data eraill o dan y Ddeddf Economi Ddigidol megis data defnydd ynni BEIS.

Mae gennym ddiddordeb clywed eich awgrymiadau ar gyfer prosiectau dadansoddol sy'n gysylltiedig ag amodau tai, awgrymiadau ar gyfer ffynonellau data i ymchwilio, neu os oes gennych ddiddordeb mewn cael mynediad at ddata sydd gennym eisoes ar gyfer prosiectau ymchwil. Cysylltwch â ni drwy'r [blwch post tystiolaeth amodau tai](#) gydag unrhyw ymholiadau, ceisiadau, neu fewnbwn ar unrhyw un o'r uchod.

Cyfarfod Nesaf y Grŵp Gwybodaeth Tai (HIG)

Cynhelir y seminar Grŵp Gwybodaeth Tai ddydd Mercher 25 Ionawr 2023. Cynhelir y cyfarfod rheolaidd nesaf drwy Microsoft Teams ym mis Mai 2023. Bydd agenda a gwahoddiad i gyfarfod yn dilyn yn agosach at y dyddiadau.

Ymholiadau

Os oes gennych unrhyw ymholiadau ar yr uchod, neu os hoffech gyngor ystadegol ar ddefnyddio data tai (gan gynnwys er enghraifft yn absenoldeb data), cysylltwch â:

ystadegau.tai@llyw.cymru.

